

Closio at Goed

gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Paratoi cyn mynd allan i'r maes

Cyn i chi fynd i astudio coed meddylwch am eu gwahanol swyddogaethau.



1 Y disgyblion i ystyried sut mae coed yn cymryd rhan

- yn eu bywydau.
- yn eu dychymyg.
- mewn llyfrau a ffilmiau.

Dyma rai o'r swyddogaethau posibl:

- gwarchod neu ddiffinio ffiniau.
- darparu pren ar gyfer pwrpasau amrywiol.
- darparu bwyd ar gyfer pob math o greaduriaid.
- cynnig cartref i bob math o greaduriaid.
- trawsnewid carbon deuocsid yn ocsigen.
- amddiffyn y pridd rhag ei ddifrodi gan wynt, glaw a thraed.
- darparu nodweddion amlwg yn y tirlun.
- ysgogi teimladau fel edmygedd, dirgelwch ac arswyd.

2 "Pe bawn i yn goeden ..."

Y disgyblion i ddewis coeden gyfarwydd mewn cae, coedlan, gardd, parc neu stryd (hyd yn oed mewn llyfr neu ffilm e.e. helygen waldio nofelau Harry Potter) yna gweithredu fel ei llefarydd ac egluro'i swydd i weddill y dosbarth neu'r grŵp.

Yn y maes

Mae angen dewis man lle ceir digon o goed yn ôl maint y grŵp, fel bod pob disgybl yn medru eistedd neu orwedd dan goeden ar ei ben ei hun, heb siarad na chyffwrdd â neb arall.



1. Y disgyblion i wisgo mwgwd a

- chyffwrdd y goeden. Dylid eu hannog i deimlo rhisgl, dail, brigau, ffrwythau a blagur yn ôl tymor y flwyddyn.
- gwrando ar sŵn y gwynt yn y dail, ac ar synau adar ac anifeiliaid.
- defnyddio eu synnwyr arogli ac efallai gwasgu dail marw

neu
ffres rhwng eu bysedd a'u ffroenu.

- nodi sut y maent yn teimlo – hapus, tawel, diogel, ofnus.

2. Y disgyblion i dynnu'r mwgwd a

- disgrifio'n fanwl yr hyn a welant e.e. rhisgl, dail, blagur, blodau, ffwythau, yn ôl tymor y flwyddyn.
- eistedd neu orwedd eto a chraffu ar ganopi'r goeden. Dylid eu hannog i sylwi ar fanylion patrymau, lliwiau a gwriad.

3. Y disgyblion i ddewis dwy goeden go wahanol i'w gilydd e.e. hen dderwen a bedwen ifanc a

- nodi pum peth sydd yr un fath amdanynt a phum peth sydd yn wahanol e.e. uchder, trwch, siap a lliw y dail, arogl, lliw ac ansawdd y rhisgl, ffurf y canghennau.
- ar sail y pethau hynny, penderfynu pa nodweddion sydd yn gyffredin i goed.

Yn ôl yn yr ysgol

1.Y disgyblion i

- astudio'r rhestr ansoddeiriau isod, sydd mewn parau gwrthgyferbyniol, ac i nodi pa rai sydd yn disgrifio eu profiad hwy yn y maes.
- ychwanegu unrhyw ansoddeiriau eraill i fynegi eu profiad.
- ysgrifennu'r geiriau sydd yn mynegi eu profiad personol hwy ar ffurf dail a'u gludo ar silwêd o goeden ar gyfer mur yr ystafell ddosbarth.

caled	meddal	ifanc	hen
tal	byr	tenau	trwchus
hardd	hyll	golau	tywyll
llyfn	garw	deiliog	noeth
iach	sâl, gwael	cryf	gwan
poeth	oer	afrosgo	gosgeiddig

2.Y disgyblion i ddewis coeden a

- llunio disgrifiad ffeithiol ohoni, wedi ei seilio ar eu harsylwadau yn y maes.
- llunio cerdd fer am y goeden wedi ei seilio ar eu teimladau a'u meddyliau tra'n agos ati.